Cyfnodau Allweddol 2–3

# Daearyddiaeth

## yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Daearyddiaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

**Cynulleidfa** Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer daearyddiaeth yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r pwerau yn Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Camau i'w cymryd** Rhaid i athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu yn ôl y dyddiadau a nodir yn y Rhagair.

**Gwybodaeth bellach** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

Cyf: AC/GM/0820 Ionawr
ISBN: 978 0 7504 4424 8 A-EAC-02-01-029/PG
© Hawlfraint y Goron 2008
WG30202

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Cynnwys pob dysgwr | 4 |
| Sgiliau ar draws y cwricwlwm | 6 |
| Dysgu ar draws y cwricwlwm | 8 |
| Dilyniant mewn daearyddiaeth | 10 |
| Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio | 12 |
| Cyfnod Allweddol 3: Rhaglen Astudio | 14 |
| Targed cyrhaeddiad | 16 |
| Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol | 20 |

# Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer **daearyddiaeth** yng Nghymru.

## Strwythur y cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Fe'i trefnir ar sail tri chyfnod allweddol, a dyma nhw yn fras*:

| | Oedran y disgyblion | Grwpiau blwyddyn |
|---|---|---|
| Cyfnod Allweddol 2 | 7–11 | 3–6 |
| Cyfnod Allweddol 3 | 11–14 | 7–9 |
| Cyfnod Allweddol 4 | 14–16 | 10–11 |

Yng Nghymru, mae'r pynciau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn y cyfnodau allweddol a ddangosir:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Allweddol 2 | Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol. |
| Cyfnod Allweddol 3 | Fel yng Nghyfnod Allweddol 2, ynghyd ag iaith dramor fodern. |
| Cyfnod Allweddol 4 | Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. |

Ar gyfer pob pwnc, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol a restrir uchod, mae rhaglenni astudio yn pennu'r hyn y dylid ei addysgu i'r disgyblion ac, ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae targedau cyrhaeddiad yn nodi safonau'r perfformiad a ddisgwylir gan y disgyblion.

Ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae safonau perfformiad y disgyblion yn cael eu disgrifio mewn wyth disgrifiad lefel sy'n mynd yn fwyfwy anodd. Mae disgrifiad ychwanegol y tu hwnt i Lefel 8 er mwyn helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, defnyddir cymwysterau allanol fel y prif ddull o asesu cyrhaeddiad yn y cwricwlwm cenedlaethol. Bob blwyddyn bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi rhestr o gymwysterau sydd, dan Adran 96 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio gyda disgyblion o oedran ysgol gorfodol.

* Mae'r cyfnodau allweddol yn cael eu diffinio'n fanwl gywir yn Adran 103 Deddf Addysg 2002.

## Cynnwys pob dysgwr

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig yn cynnwys adran sy'n sôn am gynnwys pob dysgwr ac mae'n egluro hawl pob dysgwr a chyfrifoldebau ysgolion.

## Dyddiadau gweithredu

Mae'r rhaglenni astudio a'r targed cyrhaeddiad diwygiedig ar gyfer **daearyddiaeth** yn dod yn ofynion cyfreithiol trwy gyfrwng Gorchymyn a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe ddônt i rym ar:

- 1 Awst 2008 ar gyfer Blynyddoedd 3, 4 a 5 a Blynyddoedd 7 ac 8
- 1 Awst 2009 ar gyfer Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9.

O'r dyddiadau hyn bydd y cwricwlwm cenedlaethol presennol ar gyfer **daearyddiaeth** yn cael ei ddisodli.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Ionawr 2008**

# Cynnwys pob dysgwr

## Cyfrifoldebau ysgolion

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gweithredu'r Hawliau*, rhaid sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol yn gosod dyletswydd bellach ar ysgolion yng Nghymru tuag at y dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, sef cael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dylai ysgolion feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylai ysgolion gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai ysgolion ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ysgolion weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff dysgwyr brofiadau perthnasol a hygyrch.

Ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn enwedig, dylent:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai ysgolion geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai ysgolion gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylai ysgolion ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n cyfateb â'u gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylai ysgolion hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr wrth ddysgu.

## Hawliau dysgwyr

Dylai ysgolion yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r ysgol addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu. Dylai hefyd sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. I ehangu eu dysgu, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall ysgolion ddefnyddio cynnwys o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol o fewn y cwricwlwm. Dylai ysgolion ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses ddysgu.

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sy'n llawer is na'r hyn a ddisgwylir mewn unrhyw gyfnod allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu rhaglenni astudio i gyfateb â'r anghenion hynny. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwyr unigol, am gyfnod dros dro fel arfer. Serch hynny, ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.

Os nad oes modd ymdrin â chynnwys yr holl raglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddewis pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm yn gyd-destunau ar gyfer dysgu.

Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai ysgolion ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

# Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3–19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai'r fframwaith ddarparu'r sail ar gyfer gwneud cynnydd effeithiol yn y sgiliau hyn, y gellir eu hasesu drwy ystod o gymwysterau, gan gynnwys Sgiliau Allweddol.

## Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn **daearyddiaeth**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau meddwl trwy ymchwilio, cynllunio ymchwiliadau a gwneud gwaith maes. Byddant yn gofyn ac ateb cwestiynau, a chasglu, trefnu a dadansoddi gwybodaeth. Byddant yn tynnu casgliadau, gwneud penderfyniadau ac yn llunio barn am leoedd, amgylcheddau a'r materion daearyddol sy'n effeithio ar y byd o'u cwmpas. Byddant yn myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd mewn un cyd-destun er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy haniaethol ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn cyd-destunau newydd.

## Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn **daearyddiaeth**, bydd y dysgwyr yn dewis, defnyddio, cymhwyso a chyfuno amrywiaeth o sgiliau i gyfleu eu dealltwriaeth ddaearyddol, trwy fapiau, delweddau ac ysgrifennu estynedig gyda therminoleg arbenigol. Trwy eu gwaith ymchwil byddant yn dysgu sut i gaffael gwybodaeth, asesu dilysrwydd a thuedd data ac adroddiadau yn y cyfryngau ac yn addasu eu cyflwyniadau eu hunain i wahanol gynulleidfaoedd. Wrth drafod materion daearyddol, byddant yn datblygu ac yn cyfiawnhau eu syniadau, safbwyntiau a barn mewn dadleuon a thrwy gyflwyniadau amlgyfrwng.

## Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod**, **datblygu**, **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn **daearyddiaeth**, bydd y dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau TGCh i gyrchu'r rhyngrwyd am wybodaeth, gan gynnwys mapiau a delweddau lloeren. Byddant yn defnyddio gwahanol gronfeydd data, taenlenni, amlgyfryngau a GIS i adnabod perthnasoedd a phatrymau. Gyda gwaith maes byddant yn defnyddio offer i gasglu a threfnu gwybodaeth ac yn dewis rhaglenni i wella'r dull o gyflwyno eu casgliadau.

## Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol**, **cyfrifo**, **a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn **daearyddiaeth**, bydd y dysgwyr yn cymhwyso sgiliau rhif yn yr ystafell ddosbarth ac mewn gwaith maes er mwyn mesur, casglu a dadansoddi data. Byddant yn defnyddio gwybodaeth fathemategol i ddeall cyfeiriad, pellteroedd a graddfa ac er mwyn pennu lleoliadau pan fyddant yn defnyddio cynlluniau, mapiau a globau.

# Dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, dylai gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr gael eu datblygu a'u cymhwyso o fewn cyd-destunau eu llwybrau 14–19 unigol gan gynnwys y Craidd Dysgu.

## Y Cwricwlwm Cymreig (7–14) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14–19)

Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **daearyddiaeth** yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy gynnig cyfleoedd i'r dysgwyr archwilio trwy waith ymchwil a gwaith maes, y tirluniau naturiol a dynol amrywiol yng Nghymru. Byddant yn archwilio'r prosesau economaidd sydd wedi newid Cymru a sut y gall y penderfyniadau a wneir ar lefelau lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd effeithio ar ddatblygiad Cymru. Byddant yn archwilio'r rhesymau dros faterion economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar gymunedau yng Nghymru, gan gynnwys eu cymuned eu hunain. Byddant yn meithrin ymdeimlad o le a hunaniaeth trwy ymchwilio'r cysylltiadau rhwng cymunedau a rhwng rhanbarthau yng Nghymru, yn ogystal â deall y berthynas rhwng Cymru a gwledydd eraill.

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn **daearyddiaeth**, bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i astudio eu rôl fel dinasyddion lleol a byd-eang a gwerthfawrogi amrywiaeth cymunedau yng Nghymru a gwledydd eraill. Byddant yn ymchwilio sut a pham y bydd amgylcheddau'n newid a phwysigrwydd cynaliadwyedd. Byddant yn dysgu am y cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr a sut y gall gweithredoedd economaidd ac amgylcheddol pobl mewn un rhan o'r byd effeithio ar fywydau pobl eraill. Byddant yn dysgu sut i ddefnyddio gwybodaeth am leoedd a phobl i atal stereoteipio, yn llunio barn wybodus am faterion, yn datblygu eu safbwyntiau a'u barnau eu hunain, ac yn parchu gwerthoedd ac agweddau pobl eraill.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Dylai dysgwyr 11–19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn **daearyddiaeth**, bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar yr economi yn eu cymuned lleol, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Byddant yn dysgu am y cysylltiadau rhwng cynhyrchu a defnyddio a'r effaith bosibl ar gyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys datblygiad eu gyrfa hwy eu hunain. Byddant yn datblygu eu dealltwriaeth o'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio ym myd gwaith, megis llafur rhad, cystadlu, diwydiannau gwasanaethu. Byddant yn ystyried sut mae prosesau economaidd yn newid Cymru a bydd ganddynt gyfleoedd i drafod sut mae cynaliadwyedd a materion byd-eang yn effeithio ar fyd gwaith. Byddant hefyd yn meithrin sgiliau a thechnegau gwerthfawr sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys defnyddio GIS, defnyddio a chreu mapiau, cynnal arolygon, dadansoddi data, a gwneud gwaith ymchwil.

# Dilyniant mewn daearyddiaeth

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn y Cyfnod Sylfaen (yn cynnwys daearyddiaeth)

Dylai plant brofi'r byd cyfarwydd trwy ymholi, gan archwilio mewn modd diogel a systematig yr amgylchedd a geir dan do ac yn yr awyr agored. Dylid cynnig profiadau iddynt sy'n eu helpu i gynyddu eu chwilfrydedd ynghylch y byd sydd o'u cwmpas a'u helpu i ddechrau deall digwyddiadau'r gorffennol, pobl a lleoedd, pethau byw, a'r gwaith y mae pobl yn ei wneud. Gan ddefnyddio pob un o'u synhwyrau, dylid annog plant i fwynhau dysgu trwy archwilio, ymholi, arbrofi, gofyn cwestiynau a cheisio dod o hyd i atebion. Dylent ddysgu dangos gofal, cyfrifoldeb, consýrn a pharch at bob peth byw a'r amgylchedd. Dylent ddatblygu a defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol. Dylent ddysgu mynegi eu syniadau, eu safbwyntiau a'u teimladau eu hunain gan ddangos dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd. Dylid datblygu sgiliau'r plant ar draws yr holl Feysydd Dysgu drwy sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu trwy brofiadau a thrwy ddefnyddio ffynonellau megis storïau, ffotograffau, mapiau, modelau a TGCh.

## Daearyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 2

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Bydd daearyddiaeth yn datblygu ac yn ysgogi diddordeb y dysgwyr mewn lleoedd a'r byd o'u cwmpas, ac yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod am leoedd a'r byd o'u cwmpas. Trwy astudio eu cymdogaeth eu hunain yng Nghymru, y byd ehangach, gwahanol amgylcheddau a digwyddiadau yn y newyddion, bydd y dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o sut le ydyn nhw a sut a pham y byddant yn newid. Trwy weithgareddau ymarferol a gwaith ymchwil eu hunain yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau i gasglu a gwneud synnwyr o wybodaeth, defnyddio mapiau, meddwl yn greadigol a rhannu syniadau trwy drafod. Mae daearyddiaeth yn darparu cyfleoedd i'r dysgwyr ystyried materion pwysig am eu hamgylchedd, a chydnabod sut y bydd pobl o bob cwr o'r byd wedi'u cysylltu â'i gilydd. Ceisir eu hannog i ddeall pwysigrwydd cynaliadwyedd, datblygu pryder gwybodus am ansawdd eu hamgylchedd, a chydnabod eu bod yn ddinasyddion byd-eang.

## Daearyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 3

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yng Nghyfnod Allweddol 2. Bydd daearyddiaeth yn datblygu ac yn ysgogi diddordeb y dysgwyr ac yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod am yr amrywiaeth o leoedd a chymhlethdod y byd. Trwy astudio Cymru, Ewrop, gwledydd eraill, gwahanol amgylcheddau a materion yn y newyddion, bydd y dysgwyr yn estyn eu gwybodaeth leoliadol a'u dealltwriaeth o sut y bydd prosesau yn llunio tirluniau naturiol a dynol. Byddant yn gwneud gwaith ymchwil, defnyddio mapiau, casglu data, a dadansoddi a syntheseiddio gwybodaeth. Byddant yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i esbonio'r berthynas rhwng lleoedd a phatrymau gweithgarwch ar ystod o raddfeydd o'r lleol i'r byd-eang. Ceisir annog y dysgwyr i lunio barn wybodus ynghylch materion bob dydd a datblygu a myfyrio ar eu safbwyntiau a'u barnau eu hunain. Byddant yn meithrin dealltwriaeth ynghylch pam y mae gwledydd yn gyd-ddibynnol, sut y bydd pobl yn rhyngweithio â'u hamgylcheddau a phwysigrwydd cynaliadwyedd. Ceisir eu hannog i feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb dros yr amgylchedd a'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

## Sgiliau

### Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. ganfod a lleoli lleoedd ac amgylcheddau trwy ddefnyddio globau, atlasau a mapiau, e.e. *defnyddio cyfesurynnau a chyfeirnodau pedwar ffigur*
2. dilyn cyfarwyddiadau, amcangyfrif a chyfrifo pellteroedd, e.e. *dilyn llwybrau ar fapiau ac ar dir, cymharu pellteroedd map â'r tir*
3. defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ganfod a chyflwyno gwybodaeth leoliadol, e.e. *llunio llinfapiau gan ddefnyddio symbolau ac allweddau. Dehongli mapiau, a ffotograffau gan gynnwys delweddau ar osgo, o'r awyr a delweddau lloeren*
4. adnabod a disgrifio patrymau gofodol (dosbarthiadau) o leoedd ac amgylcheddau a'r cysylltiad rhyngddynt, e.e. *llinell o drefi mewn dyffryn, patrwm ardaloedd a effeithir gan tsunami.*

### Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. adnabod a disgrifio nodweddion naturiol a dynol, e.e. *y tywydd, mathau o adeiladau*
2. adnabod beth sy'n debyg ac yn wahanol er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau
3. disgrifio achosion a chanlyniadau newid mewn lleoedd ac yn yr amgylchedd, e.e. *fesul tymor; o ddoe i heddiw; angen cael cynaliadwyedd.*

## Ystod

**Bydd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth daearyddol trwy ddysgu am leoedd, amgylcheddau a materion.**

**Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i:**

- **astudio**
  - byw yng Nghymru: eu hardal leol* ac ymchwilio o leiaf un agwedd ar ddaearyddiaeth Cymru gyfan, e.e. *parciau cenedlaethol, ble mae pobl yn byw*
  - byw mewn gwledydd eraill: dwy gymdogaeth gyferbyniol* mewn gwledydd ar wahanol lefelau o ddatblygu economaidd y tu allan i'r Deyrnas Unedig
  - byw yn fy myd fy hun: gofalu am leoedd ac amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang
- **gwneud**
  - gwaith ymchwil ar 'ddaearyddiaeth yn y newyddion', digwyddiadau a materion cyfoes yn yr ardal leol a'r byd ehangach
  - gwaith maes i arsylwi ac ymchwilio i leoedd a phrosesau go iawn

## Ymchwilio

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** arsylwi a gofyn cwestiynau am le, amgylchedd neu fater daearyddol, *e.e. Beth sy'n achosi llifogydd? Sut a pham mae ein pentref yn newid?*

**2.** mesur, casglu a chofnodi data trwy waith ymchwil ymarferol a gwaith maes a defnyddio ffynonellau eilaidd, *e.e. defnyddio offer i fesur glaw, defnyddio GIS, cynllunio holiaduron*

**3.** trefnu a dadansoddi tystiolaeth, datblygu syniadau i gael hyd i atebion a thynnu casgliadau, *e.e. defnyddio taenlen data, cymharu data tywydd.*

## Cyfathrebu

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** fynegi eu barn eu hunain a sylweddoli bod gwahanol safbwyntiau gan bobl am leoedd, amgylcheddau a materion daearyddol, *e.e. am ffermydd gwynt, masnach deg*

**2.** gwneud penderfyniadau am faterion daearyddol trwy wahaniaethu rhwng ffaith a barn ac ystyried gwahanol ddadleuon, *e.e. problem trafnidiaeth*

**3.** cyfleu'r casgliadau mewn ffyrdd amrywiol, *e.e. defnyddio termau daearyddol, ffotograffau anodedig, mapiau, diagramau neu TGCh.*

- **gofyn ac ateb y cwestiynau**
  – ble mae'r lle/amgylchedd hwn? Sut fath o le/amgylchedd yw hwn a pham? Beth sy'n digwydd a pham?

  – sut mae'r lle hwn yr un fath neu'n wahanol i'r lleoedd/amgylcheddau eraill a pham? Ydy'r lle bob amser yr un fath? Pam mae e'n newid?

  – sut mae lleoedd ac amgylcheddau wedi'u cysylltu â lleoedd ac amgylcheddau eraill? Sut ydw i a/neu bobl eraill wedi'u cysylltu â rhannau eraill o'r byd?

  – sut mae pobl wedi effeithio ar y lle/amgylchedd hwn? Sut galla i a phobl eraill ofalu am yr amgylchedd hwn?

  – sut mae barn pobl am y mater daearyddol hwn yn amrywio a beth yw fy marn i?

* Dylai'r ardal leol gwmpasu ardal sy'n fwy na chyffiniau agosaf yr ysgol. Fel rheol bydd yn cynnwys cartrefi'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol. Dylai'r gymdogaeth gyferbyniol fod yn ardal tua'r un maint â chymdogaeth yr ardal leol.

## Sgiliau

### Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** leoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau, e.e. *defnyddio cyfeirnodau grid chwe ffigur, defnyddio mapiau OS 1:25,000 a 1:50,000, delweddau'r rhyngrwyd/lloeren*

**2.** defnyddio gwahanol fathau o fapiau, cynlluniau a delweddau ar wahanol raddfeydd a TGCh i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol, e.e. *defnyddio mapiau tirwedd, delweddau lloeren, GIS, tynnu llinfapiau*

**3**. esbonio patrymau gofodol nodweddion, lleoedd ac amgylcheddau ar wahanol raddfeydd a'r cydgysylltiad rhyngddynt, e.e. *llifoedd trafnidiaeth lleol, trwch y boblogaeth fyd-eang.*

### Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** ddisgrifio ac esbonio nodweddion ffisegol a dynol, e.e. *nodweddion afon a gweithgarwch economaidd*

**2.** esbonio achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a'r gydberthynas rhwng y prosesau, e.e. *achosion a chanlyniadau gweithgarwch tectonig, effeithiau mudo yn Ewrop*

**3.** esbonio sut a pham y bydd lleoedd ac amgylcheddau yn newid, ac adnabod tueddiadau a goblygiadau i'r dyfodol, e.e. *cynnydd yn y boblogaeth, newid hinsawdd, globaleiddio.*

## Ystod

**Bydd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth daearyddol trwy ddysgu am leoedd, amgylcheddau a materion ar amryw o raddfeydd mewn lleoliadau dethol y tu mewn i Gymru, yr Undeb Ewropeaidd a'r byd ehangach.**

**Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i:**

- **astudio**
  - tref a gwlad: yr amrywiadau a'r newidiadau mewn ansawdd bywyd mewn amgylcheddau gwledig a/neu drefol
  - y byd ffisegol: prosesau a thirffurfiau arfordiroedd neu afonydd
  - pobl a'r blaned: patrymau, newid a mudiad poblogaethau
  - pobl fel defnyddwyr: yr effeithiau ar weithgarwch economaidd a'r newidiadau mewn gweithgarwch economaidd
  - y byd cyfoethog a'r byd tlawd: datblygiad economaidd mewn gwahanol leoliadau/gwledydd
  - y byd peryglus: dosbarthiad byd-eang, achosion, ac effeithiau digwyddiadau tectonig eithafol a digwyddiadau peryglus eraill
  - amgylcheddau dan fygythiad: nodweddion a phosibiliadau ar gyfer eu datblygiad cynaliadwy
  - dinasyddion y dyfodol: materion yng Nghymru a'r byd ehangach o fyw mewn modd cynaliadwy a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd byd-eang

## Ymchwilio

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** adnabod a sefydlu trefn o gwestiynau i'w hymchwilio, e.e. *Beth yw'r prosesau? Sut gall pobl reoli'r prosesau hyn? Beth yw'r materion? Pa benderfyniad byddwn i'n gwneud?*

**2.** arsylwi, mesur, tynnu a chofnodi data trwy waith ymchwil ymarferol a gwaith maes a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau eilaidd, e.e. *mapio defnydd tir, defnyddio GIS*

**3.** dadansoddi a gwerthuso syniadau a thystiolaeth, ateb cwestiynau a chyfiawnhau casgliadau, e.e. *dadansoddi tueddiadau dros amser, gwerthuso achosion ac effeithiau.*

## Cyfathrebu

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** ddatblygu barn a deall bod gwahanol werthoedd, agweddau a safbwyntiau gan bobl ar faterion daearyddol, e.e. *ynghylch prynu cynnyrch lleol neu fyd-eang*

**2.** asesu tuedd a dibynadwyedd tystiolaeth ddaearyddol i bwyso a mesur dadleuon, gwneud penderfyniadau a datrys problemau, e.e. *ynghylch llwybr arfaethedig ar gyfer ffordd osgoi newydd*

**3.** cyfleu casgliadau, syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio termau daearyddol, mapiau, delweddau gweledol, amrywiaeth o dechnegau graffigol a TGCh, e.e. *defnyddio termau estynedig, llunio graffiau, cynnal dadl, cynhyrchu cyflwyniad PowerPoint.*

- **gwneud**
  - o leiaf un ymchwiliad grŵp ac un ymchwiliad annibynnol ar gwestiwn neu fater daearyddol
  - ymchwiliadau i 'ddaearyddiaeth yn y newyddion', digwyddiadau a materion cyfoes yn y gymdogaeth a'r byd ehangach
  - gwaith maes i arsylwi ar leoedd a phrosesau go iawn a'u hymchwilio
- **gofyn ac ateb y cwestiynau**
  - beth yw nodweddion, prosesau a phatrymau y lle/amgylchedd hwn a pham maen nhw'n digwydd?
  - sut a pham mae'r lle/amgylchedd hwn yn newid? Beth allai ddigwydd nesaf, yn y tymor byr/hir a pham?
  - sut a pham mae'r lle/amgylchedd/nodweddion hyn wedi'u cysylltu â lleoedd/amgylchedd/nodweddion eraill ac yn gyd-ddibynnol?
  - sut mae amgylcheddau a phobl yn rhyngweithio?
  - sut gall newidiadau fod yn gynaliadwy a pham mae hi'n bwysig i'r lle/amgylchedd hwn?
  - beth yw'r materion daearyddol i bobl sy'n byw yn y lleoliad hwn? Sut a pham mae barn pobl am faterion yn wahanol a beth yw fy marn i?
  - sut gall fy ngweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill wneud gwahaniaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang?

## Disgrifiadau lefel

Mae'r disgrifiadau lefel canlynol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, dylai perfformiad y mwyafrif mawr o'r disgyblion ddod o fewn ystod Lefelau 2 i 5, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o fewn yr ystod 3 i 7. Mae Lefel 8 ar gael i ddisgyblion galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8.

### Lefel 1

Bydd y disgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'u cymdogaeth agos. Byddant yn disgrifio ble maen nhw, gan ddefnyddio termau bob dydd, yn llunio map syml ac yn dilyn cyfarwyddiadau. Byddant yn adnabod nodweddion lleoedd penodol ac yn ymwybodol bod rhai yn newid. Byddant yn dod o hyd i atebion i gwestiynau syml am leoedd gan ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir. Byddant yn mynegi eu barn am nodweddion lleoedd.

### Lefel 2

Bydd y disgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol gymdogaethau. Byddant yn dod o hyd i wybodaeth o fap, yn tynnu mapiau syml gyda symbolau ac yn ymwybodol o gyfeiriadau'r cwmpawd. Disgrifiant nodweddion naturiol a dynol gwahanol gymdogaethau a chydnabyddant sut y bydd rhai yn newid. Sylweddolant fod gweithredoedd pobl yn effeithio ar yr amgylchedd. Byddant yn gofyn cwestiynau syml, yn gwneud sylwadau, yn casglu gwybodaeth dan do ac yn yr awyr agored ac yn dod o hyd i atebion gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ganddynt. Byddant yn mynegi eu barn am amgylchedd cymdogaeth.

### Lefel 3

Bydd y disgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol gymdogaethau ac amgylcheddau. Byddant yn defnyddio globau a mapiau i ddod o hyd i wybodaeth am leoedd ac yn tynnu mapiau gan ddefnyddio allwedd a symbolau, ac yn deall cyfarwyddiadau. Byddant yn adnabod cymariaethau syml ac yn cynnig rhai rhesymau dros nodweddion naturiol a dynol gwahanol gymdogaethau. Sylweddolant fod pobl yn cael effaith ar eu hamgylchedd. Byddant yn ymateb i amrywiaeth o gwestiynau syml, yn arsylwi, yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth dan do ac yn yr awyr agored, ac yn dod o hyd i atebion i'w gwaith ymchwil. Byddant yn mynegi eu barn am leoedd, gyda rhai rhesymau, a sylweddolant fod gwahanol farn gan bobl. Cyflwynant wybodaeth mewn amrywiaeth o ddulliau.

## Lefel 4

Bydd y disgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau a materion ar fwy nag un raddfa. Byddant yn defnyddio cyfeiriad, pellter a chyfesurynnau syml ar fapiau, atlasau a globau i leoli lleoedd, ac yn tynnu mapiau gan ddefnyddio allwedd a symbolau priodol. Dechreuant adnabod patrymau dosbarthiadau amlwg o leoedd a'r cysylltiad rhyngddynt. Dechreuant esbonio nodweddion naturiol a dynol gwahanol gymdogaethau a sut a pham y mae lleoedd yn wahanol. Byddant yn adnabod achosion syml newid a chanlyniadau newid ac yn dangos peth dealltwriaeth o sut y gall gweithredoedd pobl, gan gynnwys eu gweithredoedd eu hunain, wella neu niweidio'r amgylchedd. Awgrymant gwestiynau perthnasol, byddant yn arsylwi, yn casglu, yn mesur ac yn cofnodi data perthnasol, dan do ac yn yr awyr agored, ac yn trefnu gwybodaeth i gyflwyno casgliadau syml i'w gwaith ymchwil. Byddant yn mynegi eu barn eu hunain a dechreuant ystyried barn a safbwyntiau pobl eraill ar faterion daearyddol. Cyflwynant wybodaeth a syniadau gan ddefnyddio rhai termau daearyddol a dulliau priodol.

## Lefel 5

Bydd y disgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o leoedd, amgylcheddau a materion ar fwy nag un raddfa. Byddant yn lleoli lleoedd yn fanwl gywir, yn defnyddio cyfesurynnau map, yn deall pellter a chyfeiriad ac yn llunio mapiau gydag ymdeimlad o raddfa a chyfrannedd. Disgrifiant batrymau daearyddol amlwg a sut y mae lleoedd wedi'u cydgysylltu. Byddant yn disgrifio ac yn cynnig esboniadau am nodweddion naturiol a dynol arferol gwahanol gymdogaethau. Byddant yn adnabod rhesymau dros y gwahaniaeth rhwng lleoedd ac yn disgrifio sut y bydd prosesau a rôl pobl o ran rheoli eu hamgylchedd yn newid lleoedd. Byddant yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn awgrymu trefn, yn casglu, yn mesur yn fanwl gywir ac yn cofnodi data perthnasol o wahanol adnoddau, gan gynnwys gwaith maes. Byddant yn defnyddio tystiolaeth ac yn tynnu casgliadau rhesymol o'u gwaith ymchwil. Byddant yn gwerthuso gwahanol safbwyntiau er mwyn helpu llunio a mynegi eu barn eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau gan gynnwys penderfyniadau am faterion daearyddol cyfredol. Byddant yn cyfleu eu dealltwriaeth gan ddefnyddio geirfa ddaearyddol gywir a thrwy ddewis dulliau priodol.

## Lefel 6

Bydd y disgyblion yn dangos ac yn dechrau cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o leoedd, amgylcheddau a materion ar wahanol raddfeydd. Byddant yn llunio ac yn defnyddio mapiau, gan ddangos dealltwriaeth a manwl gywirdeb wrth ddefnyddio graddfa, cyfesurynnau a chyfeiriad. Byddant yn adnabod ac yn disgrifio patrymau daearyddol ac yn cydnabod sut y mae lleoedd a phatrymau wedi'u cydgysylltu. Esboniant nodweddion ffisegol a dynol a rhai prosesau. Byddant yn cymharu ac yn cyferbynnu lleoedd, yn esbonio sut y bydd lleoedd yn newid ac yn dechrau adnabod tueddiadau. Disgrifiant sut y mae pobl yn cael effaith ar yr amgylchedd a sut y gall newid bod yn gynaliadwy. Byddant yn adnabod cwestiynau daearyddol perthnasol, yn sefydlu trefn ar gyfer eu gwaith ymchwil, yn dewis, yn casglu, yn mesur ac yn cofnodi data perthnasol, o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gwaith maes. Byddant yn dadansoddi gwybodaeth er mwyn darparu esboniadau rhesymegol ac yn cyflwyno casgliadau sy'n gyson â'r dystiolaeth. Byddant yn gwahaniaethu rhwng ffaith a barn, yn gwerthfawrogi barn a safbwyntiau sy'n gwrthdaro, yn cyfiawnhau eu safbwyntiau eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus am faterion daearyddol cyfredol. Dewisant a defnyddiant dermau a thechnegau daearyddol yn gywir i gyflwyno gwybodaeth.

## Lefel 7

Bydd y disgyblion yn dangos ac yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod eang o leoedd, amgylcheddau a materion ar raddfeydd amrywiol. Bydd y disgyblion yn llunio ac yn defnyddio cynlluniau a mapiau ac yn cymhwyso sgiliau map yn fanwl gywir i gael gwybodaeth. Byddant yn nodi ac yn esbonio patrymau daearyddol a sut y mae lleoedd a phatrymau wedi'u cydgysylltu. Esboniant amrywiaeth o nodweddion a phrosesau ffisegol a dynol, a disgrifiant y rhyngweithiadau o fewn a rhwng y prosesau. Byddant yn esbonio sut y bydd lleoedd yn newid, yn adnabod tueddiadau ac yn disgrifio sut y mae pobl yn cael gwahanol effaith ar yr amgylchedd. Byddant yn adnabod materion amgylcheddol ac yn deall sut y gall newid gael ei reoli mewn modd cynaliadwy. Byddant yn defnyddio trefn effeithiol o gwestiynau gyda mwy o annibyniaeth ac yn dewis eu dulliau eu hunain ar gyfer gwaith ymchwil. Byddant yn casglu, yn mesur ac yn cofnodi'n fanwl gywir ddata mwy cymhleth, gan gynnwys data a gafwyd o waith maes. Byddant yn dadansoddi tystiolaeth i lunio a chyfiawnhau esboniadau dilys a chasgliadau a brofwyd. Byddant yn gwerthuso safbwyntiau a barn sy'n gwrthdaro er mwyn eu helpu i ffurfio a chyfiawnhau eu safbwyntiau eu hunain, ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus am faterion daearyddol cyfredol. Byddant yn gwerthuso ffaith a barn ac yn dechrau adnabod tuedd. Dewisant a defnyddiant dermau daearyddol yn fanwl gywir ac amrywiaeth o dechnegau priodol i gyflwyno gwybodaeth.

## Lefel 8

Bydd y disgyblion yn dangos ac yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod eang o leoedd, amgylcheddau, digwyddiadau a materion cyfoes ar raddfeydd amrywiol. Byddant yn dangos ac yn cymhwyso amrywiaeth o sgiliau yn fanwl gywir ac yn alluog. Byddant yn dehongli mapiau i gael gwybodaeth ac yn llunio mapiau a chynlluniau sy'n cyfleu eu dealltwriaeth ddaearyddol. Esboniant sut y mae lleoedd wedi'u cydgysylltu ar wahanol raddfeydd, a sut y bydd patrymau daearyddol yn cael eu ffurfio ac yn newid. Cynigiant esboniadau am ryngweithiadau o fewn a rhwng nodweddion a phrosesau ffisegol a dynol. Byddant yn esbonio sut y bydd lleoedd yn newid, byddant yn adnabod tueddiadau a goblygiadau i'r dyfodol. Byddant yn esbonio'r gydberthynas rhwng pobl ac amgylcheddau ac yn nodi achosion a chanlyniadau materion byd-eang ac amgylcheddol, gan gynnwys cyfleoedd cynaliadwy. Byddant yn dangos annibyniaeth wrth adnabod cwestiynau priodol ac yn defnyddio trefn ymchwilio effeithiol, gan gynnwys ar gyfer gwaith maes, ac yn gweithio'n annibynnol i gasglu, mesur a chofnodi data mwy cymhleth yn fanwl gywir. Byddant yn dadansoddi ac yn dehongli tystiolaeth, yn esbonio'r berthynas rhwng achos ac effaith ac yn dod i gasgliadau a brofwyd. Byddant yn gwerthuso eu methodoleg a'u casgliadau ac yn asesu dibynadwyedd tystiolaeth. Byddant yn defnyddio eu syniadau eu hunain, ac yn ystyried safbwyntiau a barnau sy'n gwrthdaro i dynnu casgliadau a gwneud penderfyniadau gwybodus am faterion daearyddol cyfredol. Dewisant a defnyddiant amrywiaeth o dermau daearyddol yn fanwl gywir a thechnegau priodol i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol.

## Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn dangos ac yn cymhwyso'n effeithiol ddyfnder ac ehangder eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar amryw o raddfeydd ac mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys digwyddiadau a materion cyfoes. Byddant yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau yn effeithiol i sefyllfaoedd anghyfarwydd er mwyn datblygu eu dealltwriaeth. Dehonglant a dadansoddant wahanol fapiau yn annibynnol i ddewis gwybodaeth ac adnabod perthnasoedd rhwng patrymau gofodol. Deallant fod prosesau a phatrymau yn gweithredu ar wahanol raddfeydd a bod achosion ac effeithiau cymhleth ganddynt. Cydnabyddant a chynigiant esboniadau ar gyfer y rhyngweithiadau cymhleth o fewn a rhwng prosesau ffisegol a dynol a rhwng pobl a'u hamgylchedd, gan gynnwys effeithiau dinasyddiaeth fyd-eang a rheoli newid cynaliadwy. Esboniant a rhagfynegant newid dros gyfnod o amser a deallant y gall newid ddigwydd yn y tymor byr a'r tymor hir. Byddant yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn gwneud gwaith ymchwil, gan gynnwys gwaith maes, yn annibynnol. Byddant yn dadansoddi tystiolaeth ac yn gwneud defnydd dethol o syniadau a damcaniaethau daearyddol er mwyn dod i gasgliadau a brofwyd. Gwerthusant eu gwaith trwy awgrymu sut y gellid gwella'r dull o weithio ac awgrymant sut i ddatblygu'r ymchwil ymhellach. Byddant yn gwerthuso gwahanol safbwyntiau a barnau i dynnu casgliadau, gwneud penderfyniadau a llunio barn wybodus, a brofwyd am faterion a digwyddiadau daearyddol cyfredol. Defnyddiant, cymhwysant a dewisant yn briodol o ystod eang o dermau a thechnegau daearyddol er mwyn cyfleu gwybodaeth, safbwyntiau a phenderfyniadau yn effeithiol ac yn fanwl gywir.

# Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol canlynol yn anstatudol. Cawsant eu hysgrifennu i gydnabod cyrhaeddiad disgyblion sy'n gweithio islaw Lefel 1. Mae Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 1, 2 a 3 yn cydredeg â Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 1, 2 a 3.

| Cyfnod Sylfaen | Cwricwlwm Cenedlaethol |
|---|---|
| Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen | Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen | Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen | Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen | Lefel 1 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen | Lefel 2 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen | Lefel 3 Cwricwlwm Cenedlaethol |

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad y dylai disgyblion sy'n gweithio ar ddeilliant penodol eu dangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu ynghylch deilliant cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

## Deilliant 1

Bydd y disgyblion yn archwilio eu hamgylchedd agos a chyfarwydd ac yn defnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau i gyfleu eu harsylwadau. Byddant yn eu hadnabod eu hunain a phobl gyfarwydd mewn lluniau a straeon, ac yn dangos gwybodaeth o arferion dyddiol. Bydd disgyblion yn dechrau defnyddio offer sylfaenol a chasglu adnoddau cyfarwydd.

## Deilliant 2

Bydd y disgyblion yn dechrau grwpio gwrthrychau ynghyd, gan adnabod nodweddion tebyg. Byddant yn trin amrywiaeth o offer a deunyddiau ac yn archwilio sut i'w defnyddio'n ddiogel i wneud adeiladweithiau syml. Bydd disgyblion yn gwneud dewisiadau syml ac yn ymateb i gwestiynau ('beth?' 'ble?') ynghylch digwyddiadau diweddar a straeon cyfarwydd. Byddant yn cynnig eu syniadau eu hunain, gan wneud cysylltiadau â phrofiadau blaenorol weithiau. Bydd disgyblion yn dechrau paru gweithgareddau penodol ag adegau penodol o'r dydd neu'r wythnos a dangos rhyw werthfawrogiad o wahaniaethau rhwng heddiw a ddoe. Byddant yn magu hyder wrth ganfod eu ffordd mewn amgylchedd cyfarwydd, datblygu gwybodaeth o swyddogaethau pobl gyfarwydd yn yr ysgol a'r gymuned leol.

## Deilliant 3

Bydd y disgyblion yn trefnu gwrthrychau yn ôl meini prawf syml a, chyda chymorth, yn torri, siapio a chydosod y rhain yn ddiogel i wneud cynhyrchion syml sy'n ystyrlon iddynt. Byddant yn cyfleu eu gwybodaeth sy'n datblygu am eitemau a ddefnyddir bob dydd ac yn gofyn yn aml 'sut?' a 'pham?'. Efallai y bydd y disgyblion yn awgrymu ble i gael hyd i wybodaeth ac yn dechrau cofnodi eu harsylwadau a'u bwriadau gan ddefnyddio symbolau, lluniau neu ymadroddion syml. Byddant yn cyfrannu at gynllunio gweithgareddau'r dyfodol ac yn dechrau gwneud rhagfynegiadau trwy feddwl am eu profiadau blaenorol a'u trafod. Trwy holi, bydd disgyblion yn gallu adnabod newidiadau yn eu hamgylchedd ac mewn deunyddiau, nodweddion naturiol, lluniau ac arteffactau. Byddant yn gallu dilyn cyfarwyddiadau syml a rhoi digwyddiadau mewn straeon a gweithgareddau creadigol yn eu trefn. Bydd disgyblion yn dechrau defnyddio termau bob dydd am eu hamgylchedd a llif amser, gan gofio digwyddiadau o bwys yn y gorffennol ac edrych ymlaen at ddigwyddiadau yn y dyfodol.

## Nodiadau